# GWEITHIO GYDA'N GILYDD AR GYFER RINGLAND

Ebrill 2024

Croeso i'r trydydd rhifyn o Gylchlythyr Ringland sy'n dod â'r diweddaraf i chi ar ddatblygiad Campws Ringland; sy'n cynnwys y Ganolfan Iechyd a Llesiant, yr Adfywiad Siopau, a'r Hwb. Gyda chymaint o weithgarwch gan nifer o sefydliadau, roedd yn gwneud synnwyr i ddod â'r cyfan ynghyd mewn un lle.

Rydym yn awyddus i gyfathrebu unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r datblygiadau newydd yn ogystal ag amlygu gwaith gwych y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol yn yr ardal.

Os ydych yn ymwybodol o Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon Ysgol neu sefydliadau gwirfoddol, neu os ydych yn rhan o grwpiau cymunedol, ac yr hoffech rannu eich llwyddiannau gyda'r ardal ehangach, cysylltwch â ni.





Lovells a Newport City Homes sy'n gyfrifol am weinyddu'r broses Budd Cymunedol fel rhan o Ddatblygiadau Ringland. Gall Budd Cymunedol gynnig cymorth ariannol, cyngor, gwybodaeth ac arbenigedd ymarferol sy'n bodloni anghenion y gymuned. Rydym yn bwriadu cefnogi'r gymuned mewn ffyrdd a fydd yn gwella'r gymuned ehangach. Gall hyn gynnwys, er enghraifft: prynu eitemau bach o gyfarpar; mân waith adeiladu; cymorth gyda gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau; dechrau a datblygu busnes; prosiectau peilot. Mae Newport City Homes yn awyddus i gefnogi grwpiau cymunedol drwy ganolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Darparu cymorth cyflogadwyedd
- Hyrwyddo cymunedau mwy diogel a chysylltiol
- Cymorth Cynhwysiant Ariannol
- Rhoi cymorth gyda Chynhwysiant Digidol
- Hyrwyddo Iechyd a Llesiant

Am ragor o wybodaeth, neu i wneud cais, anfonwch e-bost at: Meriel.gough@lovell.co.uk a communitybenefits@newportcityhomes.com a bydd y partner mwyaf perthnasol yn cysylltu â chi i glywed eich syniadau. Yna, gallwn eich cefnogi drwy ddarparu'r wybodaeth i wneud cais ar gyfer Buddion Cymunedol Ringland.

# CANOLFAN IECHYD A LLES



## DIWEDDARIAD BIPAB

Mae gwaith datblygu Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills yn mynd rhagddo'n dda ac mae ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau a disgwylir y bydd y Ganolfan yn agor ym mis Ebrill 2025

Am ragor o wybodaeth ynghylch y datblygiad, ewch i: **Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gig.cymru).**

Hoffem eich gwahodd i ddigwyddiad Ymgysylltu Cymunedol 19 Hills ddydd Mercher 8 Mai 2024 3pm – 6pm, a gynhelir yn Hwb Cymunedol Ringland. Digwyddiad galw heibio yw hwn i rannu gwybodaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Kier Construction, yn ogystal â phartneriaid eraill a gwasanaethau lleol ynglŷn â datblygiad Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills.

Os ydych yn dymuno cael eich ychwanegu at y rhestr bostio er mwyn derbyn diweddariadau ynghylch y ganolfan, yn cynnwys y cylchlythyr partneriaeth, anfonwch e-bost at: carolyn.frame@wales.nhs.uk.





Oherwydd y gwaith swmpus sydd ar y gweill ar draws Ringland gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Newport City Homes, rydym ar ddeall bod trigolion lleol wedi mynegi ambell i bryder ynglŷn â'r sefyllfa parcio yn yr ardal. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Newport City Homes wedi ysgrifennu datganiad ar y cyd, a welir ar dudalen 3.

# Gwaith yn Ringland: Diweddariad ar barcio

Mae Newport City Homes (NCH) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) ill dau yn gwneud llawer o waith yn ardal Ringland.

Mae NCH yn adeiladu 158 o gartrefi newydd ac yn ailadeiladu'r ganolfan siopa, ac mae BIPAB yn adeiladu Canolfan Iechyd a Lles newydd 19 Hills.

## Maes parcio'r ganolfan siopa

Mae Newport City Homes yn gweithio gyda'r contractwr Lovell, ar ddymchwel y siopau gwag, er mwyn gwneud lle i adeiladu'r cartrefi a'r ganolfan siopa newydd. Bydd y gwaith yn dechrau yn ddiweddarach eleni.

Mae maes parcio'r ganolfan siopa bellach ar gau, er mwyn i'r gwaith dymchwel ac ailadeiladu ddigwydd yn ddiogel.

Mae parcio amgen ar gael yn y maes parcio isaf ger Cylch Fferm Cot. Mae trefniadau parcio amgen penodol wedi'u gwneud ar gyfer trigolion Milton Court.

Gwyddom y gall cau'r ardal hon achosi rhywfaint o anghyfleustra, ac rydym yn ddiolchgar am eich amynedd wrth i ni gyflawni ein gwaith i drawsnewid Ringland.

## Cerbydau contractwr

Rydym yn gwybod y gall cael llawer o gerbydau contractwr yn yr ardal effeithio ar barcio ar y stryd, ac rydym yn gweithio'n agos gyda chontractwyr a phobl leol i leihau'r aflonyddwch gymaint â phosibl.

Mae Lovell yn darparu ardal o fewn y safle, yn benodol er mwyn i'w staff a'u contractwyr barcio ynddo, er mwyn lliniaru'r effaith ar y gymuned leol. Gellir gweld hyn, yn ogystal ag ardaloedd dynodedig eraill ar y safle ar y map a ddarperir.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cartrefi Dinas Casnewydd ar 01633 381111.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Ganolfan Iechyd a Lles 19 Hills gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

www.bipab.gig.cymru

Gellir cael mwy o wybodaeth am y cartrefi a'r ganolfan siopa newydd gan Newport City Homes

www.newportcityhomes.com/cy/

# Digwyddiad Ymgysylltu Cymunedol Galw Heibio 19 Hills



# 19 Hills Community Engagement drop-in Event

Dewch draw i siarad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Kier Construction, partneriaid eraill a gwasanaethau lleol ynghylch datblygiad Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills

## Dydd Mercher 8 Mai, 3yp - 6yp

Hyb Cymunedol Ringland

Come along and speak to Aneurin Bevan University Health Board, Kier Construction, other partners and local services regarding the development of the 19 Hills Health & Wellbeing Centre

## Wednesday 8th May, 3pm - 6pm

Ringland Community Hub

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

KIER

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Ebrill 2024

# CANOLFAN IECHYD A LLES

## DIWEDDARIAD KIER



Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, buom yn gwneud cynnydd gyda'r gwaith amgáu a'r to ac rydym yn agosáu at sicrhau y bydd yr adeilad yn dal dŵr yn ystod yr wythnosau nesaf, gan gynnwys y gwaith o osod ffenestri a drysau allanol. Yn y cyfamser, rydym wedi dechrau rhaniadau mewnol a gosod gwasanaethau mecanyddol a fydd yn gwresogi ac awyru'r adeilad.

Wrth i ni barhau â'r gwaith mewnol, byddwn hefyd yn parhau i orchuddio'r adeilad â'r gwaith brics gorffenedig a'r cladin. Bydd yr adeilad hwn yn bodloni safonau Passivhaus, sy'n golygu y bydd wedi'i insiwleiddio a'i selio'n dda er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ynni a chostau rhedeg isel dros fodolaeth yr adeilad.

Ym mis Mawrth, gweithiom mewn partneriaeth ag Academi Ieuenctid Casnewydd er mwyn cynnig cyfleoedd profiad gwaith i ddau berson ifanc sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y diwydiant adeiladu. Dros gyfnod o 4 wythnos, fe drefnom gylchdroadau profiad gwaith ochr yn ochr â phedwar o'n his-gontractwyr. Roedd hyn yn galluogi'r rhai oedd yn cymryd rhan i ddod i gysylltiad â chrefftau amrywiol ac archwilio gwahanol lwybrau gyrfaol.

Mwynhaodd y ddau unigolyn eu cyfnod ar y safle'n fawr a chawsant ddealltwriaeth werth chweil o'u profiadau. O ganlyniad i'r rhaglen hon, mae un o'r bobl ifanc a gymerodd ran wedi mynegi diddordeb mewn dod yn ôl y mis hwn i ddatblygu ei sgiliau ymhellach yn y grefft a fwynhaodd fwyaf - gwaith to a chladin.



Yn yr wythnosau diwethaf, rydym hefyd wedi mynychu ffair yrfaoedd Coleg Gwent, hwyluso sawl ymweliad safle ar gyfer myfyrwyr coleg, ac wedi nodi Dydd Gŵyl Dewi drwy roi dalwyr planhigion yn llawn blodau lliwgar y gwanwyn i Hwb Ringland.



Ebrill 2024

# DIWEDDARIAD LOVELL

Mae Lovell wedi cwblhau sawl carreg filltir arwyddocaol ar ein Safle Adfywio Ringland. Rydym wedi llwyddo i gwblhau'r dymchweliad rhannol o'r siopau a'r fflatiau, gan ein galluogi i fwrw ymlaen gyda'n cynlluniau ailddatblygu.

Yn ogystal â hyn, mae gosodiad y safle wedi'i gwblhau, yn cynnwys gosod cyfleusterau parcio a ffensys ffiniol, gan sicrhau amgylchedd gweithio diogel a threfnus.

Ar hyn o bryd, mae ein ffocws wedi troi at osod draeniau a sylfaeni newydd ar gyfer 12 o unedau manwerthu newydd a 38 o dai newydd. Mae'r cam tyngedfennol hwn yn nodi dechreuad y broses adeiladu, gan osod y sylfaen ar gyfer y datblygiad gyda thîm ymroddgar yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau cynnydd yn unol â'r rhaglen.

Gan edrych ymlaen, disgwylir i'r gweithgareddau seilbyst ar gyfer y blociau manwerthu ddechrau drwy gydol y misoedd nesaf.



joe.hawkins@lovell.co.uk



## Rhodd o Uwchbridd i Ysgol Gynradd Ringland

Derbyniodd Ysgol Gynradd Ringland dunnell gyfan o uwchbridd yn rhad ac am ddim gan Jewson, partner cadwyn gyflenwi Lovell. Roedd plant yr ysgol a'u rhieni wedi gwirioni gyda'r rhodd hael hon ac aethant ati ar unwaith i wneud defnydd da o'r pridd.

Gyda dwylo prysur a bysedd gwyrdd, bu'r plant a'u rhieni wrthi'n ddygn yn llenwi dalwyr planhigion a chodi gwelyau gyda'r uwchbridd, gan baratoi amgylchedd delfrydol ar gyfer plannu hadau.

Mae'r gweithgaredd ymarferol hwn yn hyrwyddo gwaith tîm ac ysbryd cymunedol yn ogystal â chyflwyno profiadau dysgu amhrisiadwy ar arddio, cynaliadwyedd, a'r byd naturiol.

Cyfrannodd Lovell at ymdrechion cadwraeth amgylcheddol hefyd drwy roddi 30 tiwb o hadau a grëwyd yn benodol i gefnogi peillwyr.

# Digwyddiad gwybodaeth cymunedol



Artist's impression of Elderwood Parc

## Dydd Mercher 1af Mai 2024 2:30yp – 6yn

**Canolfan Gymunedol Ringland**

**Hwb Dwyrain, 282 Cylch Ringland, Casnewydd, NP19 9PS**

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i fynychu adfywiad Ringland – digwyddiad gwybodaeth cymunedol. Bydd trigolion lleol yn cael y cyfle i gwrdd â thîm y prosiect, a ddysgu mwy am y datblygiad arfaethedig.

newport city homes LOVELL

Ebrill 2024

# Rhwydwaith Dros 50 yn Y Sied




## Action for Elders

Mae Action for Elders yn cynnal sesiwn tai chi awr o hyd bob wythnos yn ardal gymunedol Y Sied yn Nhreberth.

Mae'r sesiwn hon wedi'i llunio ar gyfer pobl dros 50 oed ac mae'n darparu'r cyfle i gymryd rhan mewn ymarfer corff ysgafn gyda'r pwyslais ar symudedd a llesiant.

Cynhelir y sesiwn o 10.30am-11.30am bob dydd Mercher.

Dewch draw i roi cynnig ar rywbeth newydd a chyfarfod pobl newydd!

## Ydych chi'n weithiwr trin gwallt symudol sy'n chwilio am le cymunedol?

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer unigolyn sy'n ymddiddori mewn gwallt ac sydd eisiau dylanwadu'n gadarnhaol ar y gymuned leol! Llogwch gadair yn Salon Trin Gwallt ein hwb cymunedol a leolwyd yn ardal gymunedol Y Sied yn Nhrebarth.

Ar agor Llun-Gwener, cewch gyfle i arddangos eich sgiliau gwallt rhyfeddol wrth weithio ochr yn ochr â'r gymuned! Byddwch yn gwneud gwahaniaeth ac yn cael cyfle i roi gwên ar wynebau'r trigolion.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Brian McGuigan yn Pobl ar brian.mcguigan@poblgroup.co.uk

Ebrill 2024

# Canolfan Gymunedol Ringland

Mae Academi Ieuenctid Casnewydd yn ddarpariaeth ysbrydoledig, sy'n trawsnewid bywydau, wedi'i llunio ar gyfer pobl ifanc Casnewydd rhwng 16 a 19 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

Yr academi yw un o ddarparwyr hyfforddiant mwyaf Casnewydd gyda thros chwe blynedd o brofiad yn hyfforddi pobl ifanc ac yn eu helpu i mewn i gyflogaeth ac addysg uwch/bellach.




**Promo provision – https://youtu.be/-ugqVST1HOc?si=sb_PjJR8PZwr7ZcC**
**Promo learner interview – https://youtu.be/8sntpQxvu3U?si=SvkKRomWjolxeM-9**
**Promo learner interview – https://youtu.be/cfZBnnxGkg4?si=NauMndP7jSK3OOH_**
**Promo STEM project – https://youtu.be/e8na9L1Bp-A?si=w5TN1TKMmq7nwrTP**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## *Bydd ddoeth a byw'n ddoeth*



**Gwybodaeth ac arweiniad ar gyllidebu; rheoli biliau trydan/nwy/dŵr, cyngor ar rent a llawer mwy**

**CANOLFAN GYMUNEDOL RINGLAND -** *9 Ebrill; 7 Mai; 11 Mehefin (gan gynnwys sesiwn gyllidebu i ieuenctid) a 9 Gorffennaf (3pm-5pm)*
**CANOLFAN RASCAL HOPE, SOMERTON -** *10 Ebrill; 8 Mai; 12 Mehefin a 10 Gorffennaf (2pm-4pm)*
**CANOLFAN GYMUNEDOL ALWAY -** *11 Ebrill; 9 Mai; 13 Mehefin; 11 Gorffennaf (2pm-4pm)*
**CANOLFAN GYMUNEDOL MOORLAND A BROADMEAD -** *16 Ebrill; 14 Mai; 18 Mehefin; 16 Gorffennaf (4pm-6pm)*
**CANOLFAN GYMUNEDOL MAESGLAS -** *17 Ebrill; 15 Mai; 19 Mehefin; 17 Gorffennaf (3pm-5pm)*
**CANOLFAN MILENIWM PILGWENLLI -** *18 Ebrill; 16 Mai; 20 Mehefin a 18 Gorffennaf (4pm-6pm)*
**CWRT MALPAS -** *23 Ebrill; 21 Mai; 25 Mehefin; a 23 Gorffennaf (2.30pm-4.30pm)*
**COMMUNITY HOUSE ETON ROAD -** *30 Ebrill (gan gynnwys sesiwn gyllidebu i ieuenctid), 4 Mehefin; 2 Gorffennaf (4.30pm-6.30pm)*
**CANOLFAN GYMUNEDOL SHAFTESBURY -** *1 Mai (gan gynnwys sesiwn gyllidebu i ieuenctid), 5 Mehefin; 3 Gorffennaf (4pm-5.30pm)*
**CANOLFAN BEAUFORT -** *6 Mehefin (gan gynnwys sesiwn gyllidebu i ieuenctid a 4 Gorffennaf (3.30pm-5.30 pm)*

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

# Costau Byw

## Cymorth Galw Heibio

### Canolfan Gymunedol Ringland

7 Mai - 3pm-5pm
11 Mehefin - 3pm-5pm

### Canolfan Gymunedol Alway

9 Mai - 2pm-4pm
13 Mehefin - 2pm-4pm
11 Gorffennaf - 2pm-4pm

Ebrill 2024

# Rhwydwaith Lles Integredig

## Rhaglen Gydweithredol Ringland



Oes gennych chi ddiddordeb neu eisoes yn darparu cefnogaeth a gweithgareddau i drigolion Ringland?

Ydych chi'n byw yn Ringland, a hoffai gymryd mwy o ran yn yr hyn sy'n digwydd yn eich cymuned?

Wyddoch chi fod rhwydwaith o bartneriaid yn cyfarfod bob deufis i drafod yr holl gefnogaeth a gwasanaethau sydd ar gael i'r ardal?

Mae gan y Rhwydwaith Lles Integredig grŵp Cydweithredol Ringland sydd am barhau i gael ei arwain gan y gymuned a rhannu gwaith da a allai fod yn digwydd yn yr ardal. Dim ond gyda mewnbwn y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn adnabod yr ardal y gallwn wneud hyn.

Rydym wrthi'n chwilio am aelodau o'r gymuned, sefydliadau gwirfoddol, aelodau grwpiau cymunedol a hyrwyddwyr cymunedol i ymuno â Ringland Collaborative.

Mae hwn yn gyfle i'r rhai sydd efallai eisiau cymryd mwy o ran yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a hefyd yn gyfle i lunio'r cyfleoedd cymunedol yn y dyfodol, trwy ddod â'ch sgiliau a'ch gwybodaeth leol i'r bwrdd.

Mae amrywiaeth o bartneriaid a sefydliadau eisoes yn cymryd rhan gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Dinas Casnewydd, Cartrefi Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent, Cyfoeth Naturiol Cymru, MIND Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a llawer mwy.

Os oes gennych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, ddiddordeb mewn ymuno, e-bostiwch info@yournewport.co.uk gyda'ch enw llawn a'ch rhif cyswllt. Yna byddwn yn eich ychwanegu at ein rhestr bostio ac yn anfon gwahoddiad ffurfiol i'r cyfarfod nesaf.



# B A Support System

Ymunwch â Chyfeillion Napier a dewch i'n gweithdai Lles Dynion, a gynhelir gan Beyond Equality fel rhan o'n Hyb Cymunedol Dynion yn Ne Cymru. Gofod i drafod eich lles meddyliol a chasglu offer i gynnal eich hun a'r bechgyn.

E-bost - Chloe.A.Cheal@wales.nhs.uk

E-bostiwch eich diddordeb ar gyfer y sesiynau hyn - maen nhw am ddim a byddant yn cael eu cynnal yng Nghlwb Llafur Ringland o fis Mehefin.

casnewydd eich lles

your newport your wellbeing

Ebrill 2024

# CYSYLLTIAD AR-LEIN I'CH CYMUNED




Gyda phopeth o glybiau i weithgareddau, i grwpiau a sefydliadau, gallwch ddefnyddio'r map am ddim hwn i ddod o hyd i bethau i'ch helpu chi a'ch teulu i gyfoethogi eich iechyd a llesiant.

Mae'r mapiau yn galluogi cymunedau lleol i ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ofyn am help, y gallant ei defnyddio i ddechrau gwella eu lles.

Os ydych yn grŵp neu sefydliad cymunedol ac yn dymuno cael eich ychwanegu i'r cyfeirlyfr ar-lein a map rhyngweithiol, anfonwch e-bost at: info@yournewport.co.uk.



info@yournewport.co.uk

www.yournewport.co.uk/cy/